## Y Pasg

**Darllen Marc 16:1–8**

Dduw pob syndod,
addolwn di
wrth i ni ddathlu'r syndod mwyaf erioed.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Rydym wedi cerdded gydag Iesu,
fel ei ddisgyblion, drwy'r Efengylau.
Rydym wedi gwrando ar ei ddysgeidiaeth;
gwelsom ef yn iacháu'r rhai oedd mewn angen
a daethom i'w adnabod drosom ein hunain.
Ac yna fe'i cymerwyd oddi wrthym,
ei drin yn greulon a'i ladd.
Disgynnodd nos dywyll ar ein henaid
nes i'r haul godi ar fore'r Pasg.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Dduw pob gobaith,
adferwyd ein ffydd ynot ti:
gwyddom na all hyd yn oed angau
ein gwahanu oddi wrth dy gariad.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Dduw pob llawenydd,
mae chwerthin ar ein gwefusau
a thangnefedd yn ein calonnau
wrth i ni gyfarch ein Crist atgyfodedig.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Dduw cariad,
yn Iesu Grist cyflawnaist
fwy nag y gallem ei ddisgwyl
na'i ddeall, trosom ni.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

Dduw ein hiachawdwriaeth,
drwy gymorth dy Ysbryd Glân
rhannwn mewn gair a gweithred
y Newyddion Da am Waredwr byw.

A: Yr Arglwydd a gyfododd.
C: Efe a gyfododd yn wir! Halelwia!

***Olaf Davies***